# Adroddiad Blynyddol Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Dyma adroddiad y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgareddau rhwng 7 Mai 2019 a 30 Mai 2020. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Y Cynghorydd Malcolm James Ward: Llangynwyd a Chwmfelin

## Plaid: Plaid Cymru

## Gweithgarwch Etholaethol

Rydw i yn fy nhrydydd tymor fel Cynghorydd Bwrdeistref ar gyfer Llangynwyd a Chwmfelin. Rydw i wedi camu o'r neilltu fel Arweinydd Plaid Cymru (ond yn dal i fod yn is-gadeirydd y grŵp) i ganiatáu i'm cydweithiwr, y Cynghorydd Tim Thomas, gael profiad yn y rôl hon. Nid wyf ychwaith yn Gynghorydd Cymuned mwyach. Fe wnes ymddiswyddo o'r rôl hon ar ôl 28 mlynedd. Credaf mewn gweithio i'r Gymuned ac nid yn ei herbyn fel y dengys fy ngwaith hirsefydlog. Gobeithiaf y gall y Cyngor Cymuned ddangos mai dyma'r hyn y maent yn sefyll ar eu rhan, ac yn hytrach na bod yn fewnblyg, ac o hyd yn negyddol, eu bod yn awr yn ceisio cyfiawnhau'r arian y maent yn ei gostio. Credaf os na wneir hyn, byddwn yn gweld diwedd eu bodolaeth.

Bu'n fisoedd anodd iawn gyda'r Cyfnod Clo a'r pryder ynghylch Covid-19. Rydw i'n ddiolchgar ein bod ni yn y Cwm wedi llwyddo i'w oroesi mewn ffordd gadarnhaol. Er y bu rhai digwyddiadau heddlu a oedd yn siomedig. Diolch byth, wrth i ni ddechrau'r broses araf o ddychwelyd at yr hyn a oedd yn weithgareddau arferol o ddydd i ddydd, y byddwn oll yn parhau i sylweddoli y bydd y pandemig hwn yn cymryd blynyddoedd lawer, ac nid misoedd, i ddod drosodd.

Fe wnes i barhau i gefnogi fy etholwyr yn ystod y Cyfnod Clo. Mae'n syndod faint yn fwy hyfedr yr ydym i gyd bellach wrth ddefnyddio Zoom/Skype/Teams a sut y mae cyfarfodydd wedi dod yn fwy penodol. Mae fy ngwaith etholaethol wedi parhau ar ystod eang o faterion, gan gynnwys cynllunio, anghydfodau cymdogaeth, materion amgylcheddol, priffyrdd, tai, V2C, ailgylchu a nifer o faterion eraill.

Rwy'n dal i sicrhau bod y glaswellt yn y mannau agored ym Mharc Tyn y Waun, Llangynwyd, yn cael ei dorri. Mae hyn yn dal i fod yn her gan nad cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw'r ardaloedd ac maent yn edrych fel pe na baent yn derbyn gofal. Roeddwn yn llwyddo i gynnal torri'r glaswellt drwy gyfeirio hyn at y gwasanaeth prawf a thalu am y petrol fel y gallai pobl y Gwasanaeth Prawf ei dorri ychydig weithiau'r flwyddyn o dan y cynllun gorchmynion llys cymunedol. Fodd bynnag, mae hyn oll ar stop ar hyn o bryd, ond rwy'n obeithiol y bydd yn ailgychwyn pan fydd y cynllun yn ailgychwyn. Rwy'n dal i gael trafodaethau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y mater hwn. Yn anffodus, nid yw wedi'i ddatrys o hyd ac, ar hyn o bryd, gyda hyd yn oed llai o arian llywodraeth leol ar gael, mae'n llai tebygol.

Erbyn hyn, mae gan Gymdeithas Neuadd Bentref Llangynwyd statws elusennol ac maent yn gwbl weithredol. Dyma gyfleuster gwych i'r gymuned. Mae gan yr eiddo fynediad i'r anabl ac ardal goffi hyfryd. Mae wedi'i harchebu gan grwpiau cymunedol dyddiol ac mae hefyd yn cael ei harchebu ar gyfer partïon pen-blwydd a bedydd ar benwythnosau. Mae'n hyfryd gweld y gymuned yn gallu dod at ei gilydd, a hynny mewn neuadd bwrpasol nad ydynt wedi'i chael ers degawdau lawer.

Fe wnes i barhau i fod yn un o'r tri chwis feistri yn nhafarn The Railway, Llangynwyd (rwyf bellach yn fy 25ain flwyddyn o hyn) ar nosweithiau Sul ar gyfer y cwis elusennol. Rhoddir yr holl arian a godir i helpu pobl leol a sefydliadau elusennol lleol. Mae hyn wedi'i ohirio ar hyn o bryd, ond gobeithiwn ailddechrau'r gweithgaredd codi arian hwn pan fydd yn ddiogel gwneud hynny.

Rwy'n dal i fod yn llywodraethwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn yr ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg yn Llangynwyd, gan ymdrin â disgyblu a llawer o faterion eraill. Mae mor dda gweld pa mor dda y mae'r ysgol yn ei wneud yn y tablau cynghrair - yn eithriadol o dda i ysgol mor newydd. Erbyn hyn mae anawsterau eithriadol yn gysylltiedig â disgyblion yn dychwelyd i addysg ffurfiol, rhywbeth y mae'r ysgol a'r llywodraethwyr yn gweithio'n galed i'w drefnu. Y broblem yw bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu cludo ar fysiau i'r ysgol o bob rhan o'r Sir, ac mae angen trefnu hyn yn ddiogel a chyda gofal eithriadol.

Rwy'n dal i fod ar gael 24 awr y dydd i etholwyr gysylltu â mi, gan fy mod yn teimlo y dylent bob amser allu cysylltu â mi am gymorth. Maent wedi cysylltu â mi pan mae ganddynt broblemau brys, a oedd yn amlwg yn ystod y tywydd gwael a'r llifogydd y gaeaf diwethaf. Rwy'n derbyn nifer sylweddol o alwadau ffôn gan breswylwyr sy'n ceisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion personol ac rwyf bob amser yn barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cymorth priodol a, lle y bo'n bosibl, arweiniad.

Yn ddiweddar, mae materion parcio ceir wedi bod yn gyffredin; mae'r rhain yn dal i achosi pryder gan nad oes gan lawer o dai yn fy ardal fannau parcio dynodedig. Teimlaf fod hon yn broblem a fydd yn parhau i waethygu. Gobeithio y bydd synnwyr cyffredin yn llwyddo, ond gyda mwy o geir fesul cartref, mae hwn yn fater anodd.

Y broblem fwyaf dybryd yw'r un gyda cheir yn goryrru ger Ysgol Cwmfelin ar y gornel. Mae gennym bellach berson sy'n patrolio croesfan yr ysgol. Mae'r tîm priffyrdd, diolch byth, yn dal i edrych ar nifer o opsiynau amgen; mae croesfan sebra, goleuadau pelican, bympiau cyflymder ymhlith rhai o'r syniadau. Fodd bynnag, nid oes yr un ohonynt yn addas oherwydd ei agosatrwydd at y troad a'r opsiynau o barcio ceir, ond gan fod gennym berson yn patrolio croesfan yr ysgol, gobeithio y bydd y sefyllfa'n parhau i wella.

Mae'r "felin bapur" wedi dechrau ei estyniad mawr. Mae'n dda gweld busnes yn datblygu yma. Er bod cymaint o darfu ar ddatblygiadau newydd bob amser, mae'n ymddangos bod hyn wedi'i reoli'n dda. Byddaf yn parhau, gyda fy nghydweithiwr arall yn yr ardal, i fonitro'r sefyllfa hon. Gobeithio y bydd hyn yn arwain at lawer mwy o swyddi o ansawdd da a dyfodol cadarn i un o'r cwmnïau mawr olaf yn yr ardal.

Mae'n dda gweld hefyd, ar ôl cyfnod o bedair blynedd, fod busnes lleol wedi ailagor ac yn gwneud yn dda. Mae'r dafarn hynaf yn yr ardal wedi'i hadnewyddu (yr Old House) a bu digwyddiadau cymunedol yno fel ymweliad am ddim gan Siôn Corn ynghyd â chôr a mins peis. Mae'r dafarn arall, The Corner House, yn cael dathliad Blwyddyn Newydd (ym mis Chwefror) gyda'r Mari Lwyd a bu'n wych yn ystod yr argyfwng diweddar gan helpu pobl leol a'r rhai sy'n agored i niwed drwy wneud a dosbarthu prydau bwyd bron bob dydd - dros 300 ar ambell ddydd Sul. Mae'r Full Moon wedyn wedi parhau i gynhyrchu a dosbarthu *Cerdin Ales* a chadw pobl y cwm sydd wedi bod yn hunanynysu yn hapus.

Yn olaf, bu'r rhan fwyaf o bobl, diolch byth, yn synhwyrol yn ystod yr argyfwng a dilyn y rheolau Arhoswch Gartref, Cadwch yn Ddiogel, gan ganiatáu i'n GIG, gofalwyr a'r holl staff rheng flaen gwych wneud eu gwaith mor ddiogel â phosibl. Hoffwn ddweud diolch yn fawr iddynt oll.

.

## Rôl a Chyfrifoldebau

### Fe'm penodwyd i'r pwyllgorau canlynol: o fis Mai 2017 hyd yma

Y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a'r isbwyllgor

Y Pwyllgor Democrataidd

**Mae manylion presenoldeb y pwyllgorau hyn i'w gweld yma:**

https://democratic.bridgend.gov.uk/mgUserAttendanceSummary.aspx?XXR=0&DR=14%2f05%2f2015-18%2f05%2f2016&ACT=Go&

### Eisteddais ar y grwpiau mewnol canlynol: yn ystod Mai 2019-Mai 20

### Nodwch, os gwelwch yn dda

### Eisteddais ar y sefydliadau ychwanegol canlynol: Mai 2019 – Mai 2020

Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, fel Llywodraeth. Rwyf hefyd yn Llywodraethwr y Pwyllogr Iechyd a Diogelwch, Llywodraethwr Cyswllt, Llywodraethwr y Pwyllgor Cwynion, Llywodraethwr y Pwyllgor Staffio, Llywodraethwr y Pwyllgor Cyllid, Llywodraethwr y Pwyllgor Cwynion, Llywodraethwr y Pwyllgor Disgyblu 18

Cyflenwr diodydd Clwb Rygbi Harlequins Maesteg yn ystod gemau 20

Railway Inn - Digwyddiadau cwis feistr 48

## Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rydw i hefyd yn ymwneud yn fawr â Phlaid Cymru ar lefel leol. Rwy'n Gadeirydd ac yn ysgrifennydd aelodaeth y Gangen a'r Etholaeth.

## Dysgu a Datblygu

Mynychais y mentrau Dysgu a Datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

## Gweithgareddau a Materion Eraill

Rydw i, yn flynyddol, yn diddanu'r gynulleidfa a'r gwesteion yn Eglwys Sant Cynwyd, Llangynwyd, Gŵyl y Cynhaeaf, cyfarfodydd Sefydliad y Merched lleol a digwyddiadau elusennol.

- Z